
RCSLT WALES CYMRU

# DYFODOL MWY DISGLAIR

## ar gyfer pobl gydag Anhwylder Datblygu Iaith

**Mae Anhwylder Datblygu Iaith yn gyflwr gydol oes a all gael ei ddiagnosio gyntaf mewn plentyndod. Mae'n effeithio ar sut mae pobl yn deall a mynegi iaith. Heb ei adnabod a'i gefnogi, gall DLD ostwng mynediad i addysg, cyflogaeth a rhyngweithio cymdeithasol.**

### DLD



Mae dau blentyn ym mhob dosbarth o ddeg ar hugain yn dechrau ysgol gyda DLD.[1]

**Mae DLD yn un o'r anhwylderau niwroddatblygiadol mwyaf cyffredin.**

**Gydag amledd o 7.58%, mae bron 7 gwaith yn fwy cyffredin nag anhwylder yn y sbectrwm awtistig[2] a 46 gwaith yn fwy cyffredin na nam clyw parhaol mewn plentyndod.[3]**

## Gall pobl gyda DLD gael anawsterau gyda:

- Gwrando, sylw, cof a phrosesu iaith, yn arbennig pan roddir llawer o wybodaeth lafar;
- Dilyn cyfarwyddiadau, deall cwestiynau a naratif;
- Deall a defnyddio geirfa;
- Mynegi yr hyn y dymunant ei ddweud, yn cynnwys anawsterau gyda chanfod geiriau, gramadeg a rhoi trefn ar eu meddyliau;
- Rhyngweithio cymdeithasol, yn cynnwys cael anawsterau yn ymuno mewn sgyrsiau, deall jôc ac iaith anllythrennol;
- Defnyddio iaith i fynegi eu meddyliau a'u teimladau a rheoli eu hymddygiad a'u rhyngweithio gyda phobl eraill.


*[1]Norbury, C. F., Gooch, D., Wray, C., Baird, G., Charman, T., Simonoff, E., Vamvakas, G. & Pickles, A. (2016). The impact of nonverbal ability on prevalence and clinical presentation of language disorder: evidence from a population study. Journal of Child Psychology and Psychiatry, 57(11), 1247–1257. [2]Brugha et al., 2012. [3]Fortnum et al., 2001.*


## Effaith Anhwylder Datblygu Iaith

### Iechyd Meddwl a Lles

Mae pobl ifanc yn y glasoed ac oedolion ifanc gyda DLD yn fwy tebygol o brofi pryder ac iselder na'u cyfoedion.[4,5]

### Addysg

Mae plant a phobl ifanc gyda DLD yn cael cymwysterau academaidd a galwedigaethol is a gwelwyd eu bod wedi gadael addysg yn sylweddol gynharach na'u cyfoedion.[6]

### Cyflogaeth

Gwelwyd fod pobl gyda DLD yn llawer mwy tebygol o fod mewn swyddi heb fod yn broffesiynol. Gwelwyd fod oedolion ifanc gyda DLD yn ddiwaith bedair gwaith yn hirach na'u cyfoedion. Roedd cyfran uwch o bobl gyda DLD mewn swyddi rhan-amser ac roedd mwy o'u cyfoedion mewn cyflogaeth lawn-amser.[7]

## Rôl therapi iaith a lleferydd

Gyda'u gwybodaeth a'u harbenigedd mewn lleferydd, iaith a chyfathrebu, mae therapyddion lleferydd ac iaith yn hollbwysig mewn diagnosis a rheoli DLD yn cynnwys darparu therapi i bobl gyda DLD sydd ei angen, a'i deilwra i'w hanghenion unigol.

**Mae rôl therapi lleferydd a iaith yn cynnwys:**

- Adnabod a diagnosio DLD a'r rhai sydd mewn risg ohono;
- Llunio a chyflwyno therapi a arweinir gan angen;
- Cefnogi pobl gyda DLD a'r rhai o'u hamgylch, yn cynnwys deall eu diagnosis a sut y gall effeithio ar eu bywydau, fel y gallant eirioli drostynt eu hunain;
- Cefnogi ysgolion i integreiddio strategaethau i feithrin dysgu a defnydd iaith gan blant; a
- Cynyddu potensial cyfathrebu i'r eithaf drwy roi sgiliau i eraill mewn defnyddio strategaethau hwyluso a/neu ddefnyddio dulliau cyfathrebu atodol.


*[4]Conti-Ramsden, G. & Botting, N. (2008). Emotional health in adolescents with and without a history of specific language impairment (SLI). Journal of Child Psychology and Psychiatry, 49(5), 516-525. [5]Botting, N., Toseeb, U., Pickles, A., Durkin, K. & Conti-Ramsden, G. (2016). Depression and anxiety change from adolescence to adulthood in individuals with and without language impairment. PloS one, 11(7), 1-13. [6]Conti-Ramsden, G., Durkin, K., Toseeb, U., Botting, N. & Pickles, A. (2018). Education and employment outcomes of young adults with a history of developmental language disorders. International Journal of Language and Communication Disorders, 53(2), 237-255. [7]Ibid.*


## Yr hyn y gallwch ei wneud:

- Codi ymwybyddiaeth o DLD drwy ddefnyddio ein hasedau ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol.
- Galw ar Lywodraeth Cymru i roi arweiniad i athrawon ar ffyrdd i gefnogi dysgwyr gyda DLD.
- Galw ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru i gynyddu lleoedd hyfforddi lleferydd ac iaith i ateb galw cynyddol.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â **walesoffice@rcslt.org**